## ATODLEN 1

## SWYDDOGAETHAU CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

**2.** Yn lle erthygl 2 rhodder—

"**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cadwraeth natur" ("*nature conservation*") yw cadwraeth fflora, ffawna neu nodweddion daearegol neu ffisiograffigol;

mae i "y Corff" ("*the Body*") yr ystyr a roddir gan erthygl 3(1);

mae i "parth Cymru" yr ystyr a roddir i "the Welsh zone" gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**).

mae i "swyddogaethau rheoli llygredd" yr un ystyr ag sydd i "pollution control functions" yn adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**2**)."

(**1**) 2006 p. 32. Mewnosodwyd y diffiniad o'r "Welsh zone" gan adran 43(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23). *Gweler* hefyd Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760).

(**2**) 1995 p. 25. Diwygiwyd y diffiniad o "pollution control functions" yn adran 5(5) gan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (p. 24), Atodlen 2, paragraffau 14 a 15; a chan Reoliadau Hawlenni Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/675), Atodlen 26, paragraff 13(1) a (2). Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau pellach i adran 5.